## Cân 1: Un seren

Pe bawn i'n gallu dweud wrth dad-cu
Fod 'na ddynion wedi cerdded ar y lleuad
Fyddai'n anodd ganddo gredu fod dyn wedi medru mynd mor bell, mor bell
Ond dyna ni, mae'n rhyfedd o fyd.

A phe bawn i'n gallu dweud wrth mam-gu
Fod 'na sêr, heibio'r sêr, yn ôl ein gwyddonwyr ni.
Mi fyddai'n anodd ganddi gredu fod dyn wedi medru gweld mor bell, mor bell
Ond dyna ni, mae'n rhyfedd o fyd.

Ond O! nid fel na fu hi,
Na, roedd pethau yn well bryd hynny
Ond efallai mai fi sy'n hen ffasiwn

Un seren, un seren,
Dim ond un seren oedd yn bwysig i mi
Dim ond un seren fry uwch Bethle'm,
Dim ond un seren oedd yn bwysig i mi.

## Cân 2: Hen, Hen Stori


Seren wen uwchben y byd,
Baban annwyl yn ei grud,
Mwyn fugeiliaid ar y rhos
Gwylio'u praidd yn nhrymder nos.

Golau'n gylch o entrych Nef,
Oenig bychan yn rhoi bref,
Engyl glân a'u cân yn un
"Ganwyd heddiw Geidwad dyn"

**Cytgan**

Dewch, gwrandewch yr hen, hen stori,
Iesu Grist, ddaeth i'n gwaredu.
Dewch a chenwch am y trysor drud
Yn y gwair, Faban Mair, Gwaredwr byd.

Seren wen uwchben y byd,
Rho dy lewyrch i ni gyd;
Awn yn llu i'r llety gwael
I groesawu'n Prynwr hael.




# Gwasanaeth Nadolig

# Blwyddyn 5 a 6

# 2022

## Cân 3 - Un Bugail Bach x2

Roedd hi'n dywyll ar y mynydd pan ddaeth angel,
I ddweud wrth bawb am eni'r baban bach.
A throi wnaeth y bugeiliaid tua Bethlem,
Gan faglu 'draws ei gilydd yn eu strach.

Ond roedd 'na un bugail bach ar ôl,
Yn gwylio'r defaid syn.
Un bugail bach a'i waith mor fawr,
Yn gwarchod godre'r bryn.

## Cân 4: Tri gŵr doeth

Tri gŵr doeth ar daith y'm ni
Gwelsom olau seren fry
Gobaith newydd ynddi sydd
I ni drwy'r baban Iesu

Seren ddisglair, seren wen,
seren olau fry uwchben
Seren hyfryd sy'n y nen,
I'n harwain ni at Iesu.

## Cân 5: Chwilio am y Sêr

Daeth y doethion gynt o'r dwyrain draw
Gan ddwyn trysorau'r byd yn eu llaw,
A'r seren a ddisgleiriai yno'n glir
Oedd y seren a'u harweiniodd ar eu siwrne hir.

A nawr er mwyn i ni ei gofio ef
Fe gynnwn oleuadau fel rhai'r nef,
Ac wrth rannu ein anrhegion gwerthfawr drud
Y dathlwn eni Crist Goleuni'r Byd.

**Cytgan**

Ond bydd y goleuadau'n diffodd maes o law
A 'fydd dim ar ôl o'r gannwyll fach ond gwêr,
Bydd y byd yn troi a throi yn ôl i'r t'wyllwch
Ond a fydd rhywun yn chwilio am y sêr.

Ar y pafin cysga plentyn bach mewn pram
Wrth gyntedd brwnt y gwesty gyda'i fam
Mae hi'n canu 'Dawel Nos' ar ei ffidil rad
Am gardod siopwyr tymor ewyllys da.

**Cytgan**

A fydd rhywun yn chwilio am y sêr?
A fydd rhywun yn dal i chwilio am y sêr?

## Cân 6: Daeth Amser Hudolus

**Cytgan**
Fe ddaeth amser hudolus i'r byd,
Daeth yn amser mwynhau yr hwyl a'r cyffro,
Mae yr awyr i gyd yn llawn swyn,
A neges yr ŵyl i'n dwyn ni oll ynghyd.

Carol ym mhob man, coed tân yn clecian,
Lluniau'n y cof o'r Nadolig,
Sglein addurniadau, cannwyll yn olau,
Pethau wna'r ŵyl yn un arbennig.

Golau ar goeden, eisin ar gacen,
Lluniau'n y cof o'r Nadolig,
Iorwg a chelyn, eira ar gerdyn,
Pethau wna'r ŵyl yn un arbennig.

Prynu anrhegion, cracers, danteithion,
Lluniau'n y cof o'r Nadolig,
Derbyn a rhoddi, agor parseli,
Pethau wna'r ŵyl yn un arbennig.

**Cytgan**

## Cân 7 – Nadolig Llawen i chi gyd

Brysiwch lawr y grisiau,
Sylwch ar bresantau,
Beic mawr coch ac aur,
Doli ddel i Mair,
Teulu a pherthnasau
A ffrindiau i gyd yn cwrdd,
Mae'r twrci 'leni'n werth i'w weld,
Eisteddwch wrth y bwrdd.

Nadolig llawen i chi gyd,
I deulu mawr y byd,
Ynghanol swn y dathlu
A oes 'na le i'r Iesu
Neu ydi'r llety'n llawn o hyd?

Brysiwch at y preseb,
Syllwch ar ei wyneb,
Iesu faban Mair,
Yn y gwely gwair,
Doethion a bugeiliaid
Yn ymgrymu yno 'nghyd,
Gadwech i ninnau fynd i weld
A phlygu wrth ei grud.